Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Dynodiadau Organig) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **08 Ionawr 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**SO30C –** Hysbysiad mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) na chawsant eu cyflwyno gerbron Senedd Cymru.

**Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Dynodiadau Organig) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020")**

**<u>Y gyfraith sy'n cael ei diwygio</u>**

<u>Deddfwriaeth yr UE</u>

- Rheoliad y Cyngor (CE) rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynnyrch organig.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir i sicrhau y gall y ddeddfwriaeth hon weithio'n effeithiol ar ddiwedd y cyfnod pontio. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru nac ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2020 yn sicrhau bod rheolau organig yn cael eu diweddaru i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio trwy ddiwygio diffygion yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir.

Mae'r Rheoliadau a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n disgrifio effeithiau'r diwygiadau, i gweld yma: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1669/made

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru ac ar ei rhan ar faterion yn ymwneud â labelu organig er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Ni fydd y diwygiadau'n newid polisi ar ôl ystyried yn llawn a gofalus y diwygiadau, yr asesiad o gyfarwyddiadau'r polisi a'r dadansoddiad cyfreithiol o'r gwaith drafftio. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Bydd Rheoliadau 2020 yn dilyn y 'weithdrefn gadarnhaol gwnaed ar frys' a ddisgrifir ym mharagraff 5 o Atodlen 7 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Yn unol â'r weithdrefn hon, caniateir gwneud Rheoliadau 2020 heb orfod cyflwyno drafft o'r offeryn gerbron dau Dŷ'r Senedd, a'i gymeradwy trwy benderfyniad ganddynt, cyn belled â bod y Gweinidog perthnasol yn datgan fod angen gwneud y rheoliadau hyn, gan eu bod yn fater o frys, heb orfod cyflwyno a chymeradwyo drafft ohonynt.